Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Anifeiliaid a Chynefinoedd

## // Gemau a Gweithgareddau




# NODWEDDION CREADURIAID

### Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd chwarae rôl hwn yn edrych ar nodweddion corfforol creaduriaid cynhenid.**

**Gallwch ESTYN Y GWEITHGAREDD trwy edrych ar sut mae'r creadur wedi addasu i'w amgylchedd; adeiladu model o'r creadur neu creu ac enwi creadur ffuglen gyda nodweddion ac addasiadau arbennig.**



### Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Lluniau o grŵp creaduriaid e.e. pryfed, morol neu mamaliaid y goedwig (defnyddiwch y we, llyfrau adnabod neu gardiau â lluniau arnynt).

### Beth i'w wneud...

1. Gofyn i'r dysgwyr rannu eu hunain yn grwpiau bach a dewis un creadur o'r set lluniau.
2. Gall y grŵp archwilio'r creadur ac adnabod gwahanol rannau'r corff, e.e. pen, thoracs, cynffon, adenydd ayyb.
3. Gan weithio gyda'i gilydd, gall pob grŵp geisio creu anifail cyfan. Dylai pob aelod chwarae rôl gwahanol ran o'r corff. Dylid rhoi amser i'r grŵp ymarfer ac addasu eu hunain.
4. Yn eu tro, mae pob grŵp yn dynwared y creadur wrth geisio symud o amgylch y safle.
5. Ydy'r grwpiau eraill yn gallu dyfalu pa greadur mae'r grŵp yn ceisio'i ddynwared?